

## **ADENDWM**

### **Diweddarau adroddiad yr Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Cafodd yr Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei adolygu yn ystod 2017 gan ddefnyddio'r holl ddata a'r wybodaeth berthnasol ynglŷn â bygythiad llifogydd. Cytunwyd ar yr asesiad yma gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar 22 Rhagfyr 2017.

Mae'r datganiadau isod yn disgrifio sut mae'r asesiad wedi cael ei adolygu ers i'r asesiad cychwynnol gael ei gyhoeddi yn 2011.

#### **Bygythiad Llifogydd yn y Gorffennol**

Rydyn ni wedi adolygu'r bygythiad llifogydd ers i'r Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd yn 2011. Dydy'r ardal ddim wedi cael unrhyw lifogydd sydd wedi achosi canlyniadau niweidiol sylweddol yn lleol.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod RhCT wedi archwilio 912 achos o lifogydd mewn eiddo a thros 2600 achos o lifogydd ar briffyrdd ers 2011.

#### **Bygythiad Llifogydd yn y Dyfodol**

Dydyn ni ddim wedi canfod unrhyw wybodaeth newydd ers cyhoeddi'r Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd yn 2011 sydd wedi newid ein dealltwriaeth o fygythiad llifogydd yn y dyfodol.

#### **Ardaloedd lle ceir Perygl o Lifogydd**

Bydd ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yng Nghymru yn cael eu hadolygu yn rhan o'r Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd manwl a fydd yn ystyried bob math o risg llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2018.